David John Lewis, 'Lewis Tymbl', 1879–1947
Gweinidog (A), pregethwr a darlithydd

Yr Arglwydd Iesu yn marw i brynu.
Yr Arglwydd Iesu yn prynu i buro.
Yr Arglwydd Iesu yn puro i gadw.
Yr Arglwydd Iesu yn cadw i ddefnyddio.
(Pennau un o bregethau D.J. Lewis)

Ganwyd David John Lewis yn y Mynydd-bach, tyddyn ger pentref Hermon ym mhlwyf Llanfyrnach, Penfro, ar 28 Rhagfyr 1879, yr ail o bump o blant Dan a Mari Lewis. Gweithiai ei dad yn y gwaith plwm lleol a phan gaeodd hwnnw aeth i chwilio am waith yn Aberdâr. yno fe gafodd ddamwain ddifrifol a bu rhaid iddo roi'r gorau i'w waith. Er hynny, cafodd David Lewis fagwraeth dda gan fynychu ysgol pentref Hermon a derbyn ei addysg gynnar trwy gyfrwng y Saesneg. Un o'i gyfoedion oedd T.E. Nicholas. Fe'i magwyd ar aelwyd Gristnogol ac addolai'r teulu yng nghapel Llwyn-yr-hwrdd lle'r oedd y Parch. John Stephens yn weinidog.

Wedi gorffen yn yr ysgol prentisiwyd D.J. Lewis fel teiliwr yn Brynawel, siop Dafydd Jones yn Hermon, ynghyd â chwech o fechgyn eraill. Tua throad y ganrif ymdeimlodd â galwad Duw i'r weinidogaeth ac anfonodd lythyr at yr Athro Thomas Rees, Aberhonddu, yn gofyn am gyngor. Cynghorwyd ef i geisio rhagor o addysg ac felly'n ddiymdroi dechreuodd ar y 'Matriculation' yn Ysgol yr Hen Goleg, Caerfyrddin, wrth draed Joseph Harry. Treuliodd naw mis yno gan ddatblygu fel disgybl o safon. Ym 1902 dechreuodd ddilyn cwrs gradd yng Ngholeg Prifysgol, Caerdydd dan nawdd Coleg Coffa, Aberhonddu, ac ym 1905 enillodd radd anrhydedd ail ddosbarth mewn Hebraeg.

Y mis Hydref dilynol ymgymerodd â gradd mewn diwinyddiaeth gan ddisgleirio fel myfyriwr ond derbyniodd alwad gan eglwys ieuanc Bethesda'r Tymbl cyn cwblhau ei gwrs. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ordeinio ar 2–3 Gorffennaf 1907, a

dyma gychwyn ar y berthynas rhwng Lewis a'r Tymbl.

Daeth i fri trwy Gymru benbaladr fel pregethwr Cyrddau Mawr a allai wefreiddio cynulleidfa wrth agor gair Duw. Nodweddid ei bregethau gan wybodaeth ysgrythurol fanwl a dealltwriaeth o Hebraeg a Groeg, sef ieithoedd gwreiddiol y Beibl.

Hoffai ddefnyddio eglurebau a straeon hefyd er mwyn esbonio ystyr adnodau yn gliriach, a gallai wneud hynny gydag effeithiolrwydd mawr gan gyfareddu ei wrandawyr. Elfen arall o'i ddul o draddodi oedd defnyddio brawddegau cofiadwy – yn Saesneg – fynychaf fel "Roll up the mat" a fyddai'n aros yn y cof ac ar ddiwedd ei bregeth byddai'n codi ei lais o ran cyweirnod a sain gan orffen gydag uchafbwynt.

Daeth yn bregethwr poblogaidd a bu galw am ei wasanaeth o bob cyfeiriad yn enwedig o'r cyfarfodydd pregethu. Golygai hynny deithio mawr a phrysurdeb parhaus a effeithiodd ar ei iechyd yn achlysurol pan fyddai'n ei gor-wneud hi. Ei bregethau enwocaf oedd "A fynni di dy wneuthur yn iach?", "Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd" a "Mair yn torri'r blwch ennaint". Darlithiodd lawer ar bynciau megis, "Y Gelf o Fyw", "David Livingstone" a "Shôn Gymro". Ni phriododd a bu'n byw mewn dau lety yn y Tymbl yn ystod ei weinidogaeth o ddeugain mlynedd. Fe'i gwnaethpwyd yn gadeirydd Undeb yr Annibynwyr am 1945–46, a thestun ei anerchiad oedd 'Bwrw'r draul'. Bu farw ar 10 Mawrth 1947 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Crymych.